Y Sioe
# ADDYSG
Genedlaethol

HYDREF 4ydd 2024

Utilita Arena
**Caerdydd**

Yn ymgorffori'r **Sioe ADY**



# Llyfryn Sioe

Ewch i'n gwefan

**50%**
**I FFWRDD**
Archebion grŵp o 10+
**nes Mehefin 28ain 2024**

**@SioeAddysg**
**#NESCYMRU2024**

Gweithio Gyda:

Agored Cymru

NSM Training & Consultancy

Prifysgol Bangor University

Compass
Helpu Dysgu i Lwyddo.

Cyngor Llyfrau Cymru
Books Council of Wales

NAHT
For leaders, for learners

# Ydych chi eisiau **Ysbrydoli**, **Cefnogi** a **Datblygu eich Dysgwyr?**

Camau syml i wneud eich profiad yn y **Sioe Addysg Genedlaethol** yn **bleserus**, **addysgiadol** a **buddiol**.

**CAM 1:**
Rhannwch y ffurflen archebu gyda'r holl staff perthnasol.

**CAM 2:**
Cynghori staff ar seminarau perthnasol - gan gysylltu hyn â'r CDY.

**CAM 3:**
Defnyddiwch y côd QR i archebu arlein neu ewch i dudalen 18 i lungopio'r ffurflen.

**CAM 4:**
Anfon yr holl ffurflenni seminarau drwy ebost neu postio.

**CAM 5:**
Argraffu eich tocynnau mynediad cyffredinol a'u cadw'n ddiogel at ddiwrnod y Sioe.

**CAM 6:**
Mae'r diwrnod wedi cyrraedd! Mwynhewch eich amser yn y SAG yng Nghaerdydd, Hydref 4ydd 2024.

**CAM 7:**
Cynnal cyfarfod staff i rannu'r pwyntiau allweddol a datblygu gwybodaeth a syniadau newydd.



Archebwch eich tocynnau arlein ar **www.sioeaddysggenedlaethol.com**

“Diolch yn fawr i chi am drefnu’r digwyddiad. Mi roedd y staff i gyd wedi mwynhau yn arw. Mae’r Sioe Addysg Genedlaethol yn gynnig rhywbeth i bob aelod o staff yr ysgol. Gyda rhyddhau staff a trefnu hyfforddiant yn gallu bod yn gostus a thrafferthus ond roedd y Sioe addysg yn sicrhau fod pawb yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant ar faes penodol oedd yn cyd-fynd a’i targedau Rheoli Perfformiad mewn modd cynaliadwy i’r ysgol. Gyda amrywiaeth dda o sesiynau a gweithgareddau oedd yn teilwra ar gyfer anghenion pawb. Roedd cyfleoedd hefyd i staff weld pa offer a thechnoleg newydd sydd ar gael yn ystod yr egwyl yn y stondinau yno. Byddwn yn sicrhau bod diwrnod Hyfforddiant mewn swydd yn cael ei drefnu yn ystod diwrnod y Sioe Addysg yn flynyddol o hyn ymlaen. Diolch yn fawr iawn i chi.”

“Darparodd y sioe addysg genedlaethol brofiad cyfoethog ac arloesol i holl staff ein hysgol. Roedd yr ystod amrywiol o weithdai a chyflwyniadau wedi cynnig strategaethau a gwybodaeth gwerthfawr i’r staff i gefnogi ansawdd yr addysgu o fewn eu dosbarthiadau.”

4

**Cofiwch roi y dyddiad yn eich dyddiadur!**

## Methu cyrraedd y sioe yng Nghaerdydd?

Peidiwch â phoeni, gallwch archebu eich tocyn mynediad **AM DDIM** i’r **Sioe Addysg Genedlaethol yn Llandudno, Mehefin14eg 2024**

I archebu eich tocyn ewch i **www.sioeaddysggenedlaethol.com**

“Unwaith eto eleni, roedd y SAG yn ddiwrnod gwych. Roedd y gweithdai yn addysgiadol ac yn ddifyr i mi a’r staff.Roedd amrywiaeth dda o weithdai ar gael eto i staff ddewis ohonynt a hefyd ystod dda o stondinau. Rydym ni eisoes wedi dechrau rhoi rhai o’r syniadau a’r arferion a godwyd yn ystod y sioe ar waith. Edrychwn ymlaen at y Sioe 2024!”

## Edrychwch beth ddigwyddodd yn ein Sioe diwethaf yng Nghaerdydd

Am

# SAG 2024

## Croeso




### Croeso i'r Sioe Addysg Genedlaethol yn yr **Utilita Arena** yng Nghaerdydd.

Hon fydd ein wythfed Sioe Addysg fwyaf yng Nghymru.

Dyluniwyd y sioe eleni i ddarparu hyd yn oed mwy o seminarau, gwasanaethau a chynhyrchion. Bwriad ein sioe yw dathlu addysg ac addysgu trwy ddod â miloedd o weithwyr addysgiadol ynghyd i rwydweithio, profi ein harddangosfa a'n seminarau cyffrous.

Mae'r sioe yn llawn syniadau blaengar a seminarau diddorol achrededig DPP sy'n llawn strategaethau a syniadau ymarferol i ysbrydoli a grymuso staff, plant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae gennym hefyd sawl seminar ar gael yn Gymraeg. Ni allwn aros i rannu'r diwrnod gwych hwn gyda chi i gyd.



**Einir A Williams**
Cyfarwyddwr

## Dyddiad a Amser y Sioe

**Dydd Gwener Hydref 4ydd, 2024**
**08.00 - 16.00**

LEOLIAD:
**Utilita Arena Caerdydd**
Mary Ann St, Caerdydd, CF10 2EQ

BWYD:
Mae bwyd a diod ar gael yn y caffi yng nghanol yr Arena.

WI-FI:
Mynediad at wi-fi am ddim drwy gydol y sioe. Byddwn yn cyhoeddi manylion yn nes i'r amser.

TEITHIO a PARCIO:
Mae'r lleoliad rhyw bum munud o gerdded o'r Orsaf Heol Y Frenhines. Mae meysydd parcio NCP hefyd yn ddigon agos i gerdded

EISTEDDLE:
Mae digonedd o fannau eistedd o gwmpas y caffi yng nghanol yr Arena.

YSTAFELL WEDDI:
Mae ystafell weddi hefyd ar gael i'w defnyddio ar y diwrnod. Os ydych yn awyddus i'w ddefnyddio gofynnwch i aelod o staff eich cyfeirio chi yno.

FFOTOGRAFFIAETH:
NODWCH FOD Y DIGWYDDIAD CYHOEDDUS YMA YN CAEL EI RECORDIO AR GAMERA. Efallai y cewch eich recordio a gallwch ymddangos mewn cynhyrchiad neu hyrwyddiad y sioe.



Archebwch eich tocynnau arlein ar **www.sioeaddysggenedlaethol.com**

Gweithio gyda:

Agored Cymru yw'r corff dyfarnu Cymreig, sy'n arwain addysg yng Nghymru, i Gymru. Rydym yn ymgysylltu ag ysgolion fel y gallant gael y cymwysterau a'r wasanaethau gorau, gan ddiwallu anghenion y Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru a thu hwnt.

**www.agored.cymru**

Rydym yn cynnig nifer helaeth o gyrsiau, canllawiau arbenigol, cyhoeddiadau, a chynhadleddau, yn ogystal ag adnoddau arloesol i frwdfrydi staff a grymuso ysgolion.

**www.nsmtc.co.uk**

---

Mae gan yr Ysgol enw da ym maes hyfforddi athrawon, datblygiad proffesiynol ac arweinyddiaeth. Mae hyn yn galluogi graddedigion o'n rhaglenni i ddiwallu anghenion ysgolion a chyrff eraill cysylltiedig ag addysg gan ysbrydoli ac arwain newid ledled Prydain a thu hwnt.

**www.bangor.ac.uk**

Compass is a feature-rich, cloud-based MIS supporting over 3,000 schools globally. With 40+ intuitive modules, Compass is committed to helping schools in Wales spend less time on administration, drive better parental engagement and spend more time delivering meaningful experiences.

**www.compass.education**

---

NAHT yw'r undeb a chymdeithas broffesiynol ar gyfer uwch arweinwyr ym maes addysg. Rydym yn arwain i ddatrys a rhoi cefnogaeth gwerth i helpu i gefnogi a gwarchod eich rôl. Ymunwch heddiw.

**www.naht.org.uk**

Mae'r Cyngor Llyfrau yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Elfen bwysig o'n gwaith yw hybu llythrennedd a darllen er pleser. Rydym yn gwneud hyn nid yn unig drwy sicrhau llif cyson o gyhoeddiadau ond hefyd drwy drefnu gweithgareddau arbennig sy'n dathlu darllen er pleser mewn ffordd cyffrous a chyraeddadwy.

**www.books.wales**

---

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| AM SAG | 4 |
| Amserlen Seminarau | 7 |
| Seminarau a Siaradwyr | 8-17 |
| Ffurfen Archebu | 18 |


**Soniwch wrth eraill!**

Cofiwch ddefnyddio rhain ar gyfryngau cymdeithasol!

**#NESCYMRU2024**
**@SioeAddysg**

**einir@sioeaddysggenedlaethol.com**
**www.sioeaddysggenedlaethol.com**


**@SioeAddysg**
**/SioeAddysg**
**@SioeAddysg**

# Cymwysterau Agored Cymru ar gyfer Ysgolion: Craidd Dysgu

Agored Cymru

Dyma rai o fanteision cynnig ein cymwysterau a sut maen nhw'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd...

## Pedwar diben Cwricwlwm i Gymru




## Mae ABCh yn FAB!

**FAB 2022 AWARD WINNER**
QUALIFICATION OF THE YEAR

Enillodd y cymhwyster Addysg Bersonol a Chymdeithasol wobr Cymhwyster y Flwyddyn Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu (FAB) 2022.

Cynigir y cymhwyster mewn 66% o ysgolion uwchradd yng Nghymru trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda thwf cyson o flwyddyn i flwyddyn yn niferoedd y canolfannau, ac yn bwysicach oll yn niferoedd y dysgwyr.

## Why offer Agored Cymru qualifications?

Y Cymwysterau Craidd Dysgu:
Addysg Gysylltiedig â Gwaith
Cymru, Ewrop a'r Byd
Addysg Bersonol a Chymdeithasol
Dysgu yn yr Awyr Agored
Archwilio Bydolygon

Mae ein cymwysterau Craidd Dysgu wedi'u llunio ar ddigwyddiadau Cwricwlwm Cymru a byddwn yn parhau i esblygu gyda'r datblygiadau hynny. Mae Agored Cymru wedi ymrwymo i greu Cymwysterau i'r 21ain Ganrif ar gyfer Cwricwlwm i'r 21ain Ganrif yng Nghymru.

Mae'r cymwysterau

- yn mesur cymhwysiad dysgwr o wybodaeth a sgiliau trwy asesiadau
- yn cefnogi dull cynhwysol o ddysgu trwy gynnig dewis arall yn lle arholiadau
- yn cynnig cywerthedd TGAU
- yn cyfrif tuag at bwyntiau perfformiad ysgol

businessdevelopment@agored.cymru | agored.cymru | 02920 747866

# Amserlen Seminarau

Pob seminar wedi'i achredu gan Agored Cymru

| | 9:00 - 9:50 | 10:30 - 11:20 | 12:00 - 12:50 | 13:30 - 14:20 | 15:00 - 15:50 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystafell i'w gadarnhau | Argymhellion ardderchog i greu Cyfnod Blynyddoedd Cynnar arbennig yn eich ysgol<br>**Shonette Bason Ltd** | Brick-by-Brick: meithrin lles cymdeithasol ac emosiynol trwy chwarae LEGO® cydweithredol<br>**Dr Gina Gómez de la Cuesta** | OMB! Pam na fedr y plentyn yna fyhafio? Agweddau positif tuag at Ymddygiad<br>**Nicola S. Morgan** | O gael dy Gynnwys i fod yn Perthyn: Iaith a'r Pedwar Diben<br>**Mererid Hopwood** | Technolegau Cydweithredol mewn Ysgolion<br>**Dafydd Humphreys Aspire 2Be** |
| Ystafell i'w gadarnhau | Ydy'ch ysgol chi'n gneud yn 'lawn' neu ydych chi'n teimlo'n rhwystredig?<br>**Sonia Gill** | Ydych chi'n delio gyda sgyrsiau a phobl anodd?<br>**Nicola S. Morgan** | Beth mae'r ysgolion gorau'n wneud yn wahanol, a beth sydd yr un fath?<br>**Sonia Gill** | Sut i wella eich iechyd emosiynol a'ch lles eich hun fel bo gennych fwy o egni ar gyfer chi'ch hun ac eraill<br>**Jenny Mosley** | Delwedd y corff: Adeiladu Gwytnwch<br>**Martin Staniforth** |
| Ystafell i'w gadarnhau | Gwella sgiliau plant trwy Taskmaster. Mae'ch amser yn dechrau nawr<br>**Dr Ali Struthers & James Blake-Lobb** | Cyfathrebu synhwyraidd ar gyfer sefyllfaoedd dwys<br>**Joanna Grace** | Arwain disgyblion drwy'r 'Learning Pit'<br>**James Nottingham** | Creadigrwydd Digidol<br>**Robin Williams** | Sut mae 'Field Studies Council' Cyngor Astudiaethau Maes yn gallu eich helpu i ffurfio pecyn cymorth addysgu tu allan<br>**Jo Harris** |
| Ystafell i'w gadarnhau | Deallusrwydd Artiffisial [AI] mewn Addysg: ffrind neu elyn?<br>**Kelly Hannaghan** | Symud drwy Stori a Ioga<br>**Leisa Mererid** | Hyfforddiant cyfundrefnol wrth galon lles a iechyd<br>**Julie Rees** | 'Head and Heart Leadership'<br>**Beth Harding MBE** | Iechyd y Llais ar gyfer athrawon<br>**Polly Beck** |
| Ystafell i'w gadarnhau | Awtistiaeth: Patrwm Ymddygiad neu 'Neurotype'?<br>**Joanna Grace** | 'Empower Your Wellbeing: The 7 Pillars of Self-Care for Educators'<br>**Kelly Hannaghan** | Ymddygiad gwych a Dysgu<br>**Will Hussey** | Cyflwyniad i Brofiadau Niweidiol mewn Plentyndod a Thrawma<br>**Lorraine Petersen** | Hwyliaith<br>**Carys Gwent Ffa-la-la** |
| Ystafell i'w gadarnhau | Mae'n cymryd Pentref<br>**Sara Williams a Beca James** | Llwyddiant i adalw ffeithiau Rhif!!<br>**Ben Harding** | Arbed amser wrth ddefnyddio technoleg: arfau ar gyfer effeithiolrwydd yr athro<br>**Amelia Archer** | Deall a chefnogi ADHD<br>**Colin Foley** | Pam fod amgylchedd trawmatig ['Trauma-Informed Settings'] yn hanfodol<br>**Dr Coral Harper** |
| Ystafell i'w gadarnhau | Dyslecsia a Dyspracsia- Meddwl tu allan i'r bocs<br>**Karen Ferguson** | Cau'r bwlch anfantais: Rydym angen siarad am Jasonn<br>**Jean Gross** | Cefnogi plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif<br>**Lorraine Petersen** | Sut i fod yn gymhorthydd ac yn arch-arwr!<br>**Karen Ferguson** | 'How the Heck can the rekenrek help build late number sense?'<br>**Amy How** |
| Ystafell i'w gadarnhau | Strategaethau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anawsterau niwramrywiaethol<br>**Colin Foley** | Addysg wedi'i bersonoli ar gyfer pob disgybl<br>**Ryan Evans Aspire 2Be** | O gael dy Gynnwys i fod yn Perthyn: Iaith a'r Pedwar Diben<br>**Mererid Hopwood** | Grym Chwarae: agwedd chwareus at addysgu a dysgu<br>**Dr Gina Gómez de la Cuesta** | Ysgrifennu gan ddefnyddio technoleg ['Tech-write']: Galluogi addysgwyr i wella ysgrifennu myfyrwyr<br>**Amelia Archer** |
| Ystafell i'w gadarnhau | Gwahaniaethu Vs Addysgu Addasol Vs Sgaffaldiau<br>**Amjad Ali** | Defnyddio Drama ar gyfer Dysgu Gwych<br>**Hywel Roberts** | 'How the Heck can the rekenrek help build early number sense'?<br>**Amy How** | Pam yr ydym angen dull i'n harwain drwy'r angenhion ar gyfer ADY<br>**Sara Alston** | 'Follow The Empathy Road'<br>**Ginny Bootman** |
| Ystafell i'w gadarnhau | 'Reducing Restrictive Practices in Schools - Prevention, De-escalation, and Consistent Responses'<br>**Ollie Frith** | 'Compass for life'- dod â'r theoriau gorau ynghyd â'u gweithredu<br>**Floyd Woodrow** | Goresgyn anawsterau i ddysguv<br>**Amjad Ali** | 'The spider's web of trust'<br>**Ginny Bootman** | |
| Ystafell i'w gadarnhau | 'Adaptive Teaching (with Winnie the Pooh)'<br>**Abigail Hawkins** | Gweithio'n effeithiol hefo'ch cymhorthydd<br>**Sara Alston** | Provision Mapping (Keeping track of what support students Dereive)<br>**Abigail Hawkins** | Tair allwedd i ddod yn 'Jedi SEMH' (gyda hyd yn oed y myfyrwyr mwyaf cymhleth)<br>**Dr LJ Ducksbury** | |
| Ystafell i'w gadarnhau | Yr athro fel adroddwr storïau: Cwricwlwm Cymru a Dychymyg Proffesiynol ['Professional Imagination']<br>**Hywel Roberts** | Y '3E' o fod yn gynhwysol: 'The 3E's of Inclusion: Darparu'r ystafell ddosbarth ar gyfer myfyrwyr y dosbarth gweithiol<br>**Matt Bromley** | 'Tuff Tray' Tu Allan<br>**Shonette Bason Ltd** | Llywio tuag at newid positif yn eich amgylchedd ysgol<br>**Floyd Woodrow** | |
| Tu Pawban | Iechyd a Lles yn yr Awyr Agored - Ffordd effeithiol o ddenu disgyblion<br>**Cyngor Caerdydd Ceidwaidwyr Cymunedol a'r Tîm Addysg** | Iechyd a Lles yn yr Awyr Agored - Ffordd effeithiol o ddenu disgyblion<br>**Cyngor Caerdydd Ceidwaidwyr Cymunedol a'r Tîm Addysg** | Iechyd a Lles yn yr Awyr Agored - Ffordd effeithiol o ddenu disgyblion<br>**Cyngor Caerdydd Ceidwaidwyr Cymunedol a'r Tîm Addysg** | Iechyd a Lles yn yr Awyr Agored - Ffordd effeithiol o ddenu disgyblion<br>**Cyngor Caerdydd Ceidwaidwyr Cymunedol a'r Tîm Addysg** | Iechyd a Lles yn yr Awyr Agored - Ffordd effeithiol o ddenu disgyblion<br>**Cyngor Caerdydd Ceidwaidwyr Cymunedol a'r Tîm Addysg** |

= Seminarau ADY

Pob seminar wedi'i achredu gan

Agored Cymru

# Seminarau a Siaradwyr

9.00-9.50

## Argymhellion ardderchog i greu Cyfnod Blynyddoedd Cynnar arbennig yn eich ysgol

- Datblygu sgiliau newydd mewn dysgu ysgrifennu a mathemateg
- Dysgu sut i ffitio bob dim i mewn i amserlen brysur
- Defnyddio'r gofod tu allan i'r dosbarth i'w llawn botensial
- Datblygu syniadau asesu
- Cefnogi arolygiadau ESTYN a 'CIW'



Cyflwynir gan:

Shonette Bason
**Siaradwr Cymhellol Rhyngwladol**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa :**BC, ADY, SLT**

9.00-9.50

## Ydy'ch ysgol chi'n gneud yn 'Iawn' neu ydych chi'n teimlo'n rhwystredig?

Rydych yn gweithio'n galed, mae eich tîm yn gweithio'n galed, eich disgyblion yn gweithio'n galed… ond dydy o ddim yn teimlo fel eich bod yn symud ymlaen fel y basech yn hoffi. Fedrwch chi ddim gofyn mwy gan eich tîm oherwydd eich bod yn gwarchod eu lles. Bydd y sgwrs hon yn rhannu pam fod nifer o ysgolion yn teimlo fel hyn a rhoi erfynnau pŵerus i'ch tywys at atebion.



Cyflwynir gan:

Sonia Gill
**Prif Swyddog Gweithredol, Heads Up**


Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

## Gwella sgiliau plant trwy Taskmaster. Mae'ch amser yn dechrau nawr

Ffurfiwyd 'Taskmaster Education' gan gymryd elfennau o'r rhaglen deledu 'Taskmaster' ar Channel 4, a'u defnyddio i ysbrydoli ac addysgu plant a phobl ifanc. Drwy amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys clybiau, adnoddau, sioeau,a chynnwys ysgrifenedig bydd 'Taskmaster Education' yn mireinio sgiliau, er enghraifft datrys problemau, meddwl ochrol, gwaith tîm,creadigrwydd a gwytnwch drwy ddysgu mewn dull wedi'i seilio ar dasgau addysgol atyniadol. Yr hyn sy'n dda am 'Taskmaster' ydy y gall y fformat gael ei addasu ar gyfer amrediad di-ddiwedd o amcanion athrawon, p'run ai ar gyfer y cwricwlwm, neu wedi eu ffocysu ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Yn y seminar byddwn yn amlygu ar sut y gallwn wneud hyn mewn ffordd sy'n argymell a hyrwyddo sgiliau. Bydd y seminar yn hwyliog, rhyngweithiol ac addysgol, fydd yn dangos i athrawon sut y gall 'Taskmaster' fod yn ddeniadol a chynhwysol ar gyfer addysg i bob oed.





Cyflwynir gan:
Dr Ali Struthers
**Athro Cyswllt, Ysgol y Gyfraith Warwick**
James Blake-Lobb
**Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gynradd Sidlesham**
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

## Deallusrwydd Artiffisial [AI] mewn Addysg: ffrind neu elyn?

Mae integreddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn addysg wedi dod â nifer o newidiadau a chynnydd yn y prosesau dysgu. Tra mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cynnig posibiliadau cyffrous i wella canlyniadau addysgiadol, mae hefyd yn gofyn cwestiynau pwysig am ei effaith ar les staff a myfyrwyr. Yn y sesiwn byddwn yn archwilio i'r berthynas anodd rhwng Deallusrwydd artiffisial (AI) a lles gan archwilio y buddion posibl a'r sialensau sydd ymhlyg yn ei weithredu mewn sefyllfaoedd addysgol.



Cyflwynir gan:

Kelly Hannaghan
**Cyfarwyddwr Mind Work Matters Ltd**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

Seminar ADY

## Awtistiaeth: Patrwm Ymddygiad neu 'Neurotype'?

Mae ein dealltwriaeth o awtistiaeth yn ffurfio sylfeini lle byddwn yn sefydlu ein strategaethau dysgu, ymdrin ag ymddygiad a'n cefnogaeth i les. Felly mae'n dealltwriaeth sylfaenol o awtistiaeth y ffactor mwyaf i lwyddiant neu'r gefnogaeth a roddwn i'n myfyrwyr awtistig. Bydd y seminar yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng deall patrymau awtistiaeth fel patrymau ymddygiad a deall awtistiaeth fel 'neurotype'. Gan ddefnyddio esiamplau go iawn byddwn yn edrych ar y syniad o 'tŷ ar y graig/tŷ ar y tywod' mewn perthynas â'r ddau fath o ddealltwriaeth am awtistiaeth, y canlyniad i les y myfyrwyr, eraill o'u cwmpas, a chi fel addysgwyr!



Cyflwynir gan:

Joanne Grace
**Ymchwilydd Doethurol/ Arbenigwr Ymgysylltiad Synhwyraidd a Chynhwysiant**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

## Yr athro fel adroddwr storïau: Cwricwlwm Cymru a Dychymyg Proffesiynol ['Professional Imagination']

Yn y sesiwn ysgafn hon bydd Hywel yn edrych ar:

- Defnyddio naratif a chyd-destun wrth drefnu'r cwricwlwm
- Cwricwlwm 'Should/Could/Must'
- Cynefin a stori
- Trosglwyddo gwybodaeth a dirnad pedagogiaeth
- Storïau sy'n ysbrydoli



Cyflwynir gan:

Hywel Roberts
**Ymgynghorydd Addysg ac Awdur**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Pob seminar wedi'i achredu gan Agored Cymru

# Seminarau a Siaradwyr

9.00-9.50

Seminar ADY

## Dyslecsia a Dyspracsia- Meddwl tu allan i'r bocs

Yn ystod y sesiwn byddwn yn datblygu eich dealltwriaeth o ddyslecsia a dyspracsia ymhellach, gan edrych ar strategaethau syml i helpu myfyrwyr fwynhau eu gwersi a llwyddo'n y dosbarth.



Cyflwynir gan:

Karen Ferguson
**Hyfforddwr NSM Training & Consultancy**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb + ADY**

9.00-9.50

Seminar ADY

## Strategaethau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anawsterau niwramrywiaethol

Bydd y seminar yn edrych ar y prif strategaethau mewn dosbarth ar gyfer cynnal disgyblion niwroamryiwaethol. Bydd y sesiwn yn cynnwys y meysydd hyn:

1. Sut i strwythuro a darparu agweddau personol
2. Diwylliant niwroamrywiaeth cyfeillgar a chynnal cyfathrebu rhyngweithiol.
3. Sut i annog agweddau cadarn ar gyfer dysgwyr niwroamrywiaeth.
4. Ffocws penodol ar y cof gweithredol ['working memory'] ac 'executive functioning'
5. Sut i gynllunio ar gyfer 'centrality of engagement'



Cyflwynir gan:

Colin FolBC
**Cyfarwyddwr Hyfforddiant Cenedlaethol**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb + ADY**

9.00-9.50

## Gwahaniaethu Vs Addysgu Addasol Vs Sgaffaldiau

Bydd y gweithdy hwn yn archwilio y cysyniadau o Wahaniaethu,Addysgu Addasol a defnyddio Sgaffaldiau fel ffyrdd gwych i arfogi addysgwyr hefo dealltwriaeth well o'r strategaethau cyfarwyddol hyn.Bydd pob dull yn cefnogi addysgwyr, ond gyda ffyrdd arbenigol o'u cyflwyno.



Cyflwynir gan:


Amjad Ali
**Ymgynghorydd**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

## 'Reducing Restrictive Practices in Schools – Prevention, De-escalation, and Consistent Responses'

Mae diwylliant ysgol sy'n rhoi cefnogaeth i reoli y myfyrwyr mwyaf anodd yn wych yn allwedd i amgylchedd ddysgu hamddenol. Bydd Olllie yn eich helpu i ddatrys yr anrhefn o gosbi a gweld bai , tra'n rhannu egwyddorion dymunol ac ymarferol gan yr ymarferwyr gorau, sy'n gallu datrys sefyllfaoedd a lleihau'r angen am ymyrraeth gorfforol. Esbonia Ollie sut y mae rhai pobl ifanc yn dilyn y rheolau tra bo eraill yn dilyn pobl eraill. Bydd yn eich gadael hefo strategaethau ymarferol fydd yn helpu oedolion prysur i ddelio hefo'r dysgwyr mwyaf trafferthus a chyflwyno rationale ar rwystro'r sefyllfa yn y lle cyntaf yn hytrach na cheisio'i gwella.



Cyflwynir gan:

Ollie Frith
**Arweinydd Addysg ac Ymddygiad CPI**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

Seminar ADY

## Adaptive Teaching (with Winnie the Pooh)

Adaptive teaching revolutionises education by prioritising personalised instruction that caters to the distinct learning needs of each student. By implementing adaptive teaching methods, we unleash the untapped potential within every student, Pawb while ensuring that teachers do not feel overwhelmed with additional responsibilities. The session, we inject a dose of whimsy by envisioning the beloved characters from Winnie the Pooh as our students. Brace yourself for an engaging and enthrPawbing lesson about volcanoes, where we will delve into how adaptive teaching strategies can effectively support students of Pawb learning styles.



Cyflwynir gan:


Abigail Hawkins
**Ymgynghorydd AAA**


Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

## Mae'n cymryd Pentref

Ar ol blynyddoedd o lymder ariannol a phandemig rhyngwladol, mae ysgolion bellach yn ffeindio'u hunain yn fwyfwy Pawbweddol i gefnogi teuluoedd. Byddwn yn trafod strategaethau i feithrin perthnasau cryfach gyda rhieni, i gyd-weithio gyda hwy i ddatblygu gwytnwch a sgiliau emosiynol, cyfathrebu ac academaidd eu plant.





Cyflwynir gan:
Sara Williams
**Arweinydd Camau Cynnydd**
Beca James
**Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Pob seminar wedi'i achredu gan

Agored Cymru

# Seminarau a Siaradwyr

Ailadrodd y seminar ym mhob sesiwn drwy'r dydd

## Iechyd a Lles yn yr Awyr Agored - Ffordd effeithiol o ddenu disgyblion

Bydd y gweithdy ymarferol yma'n deffro'r synhwyrau a rhoi cyfleoedd i gysylltu hefo natur. Mae bod yn yr awyr agored yn darparu profiadau go iawn a helpu i hybu'r meddwl a sgiliau datrys problemau.Bydd y sesiwn yn annog y cyfranwyr i ddarganfod ffyrdd i wella sgiliau motor, gwella lefelau ymarfer corff ynghŷd â chyfle i archwilio creadigrwydd a chael eich ysbrydoli drwy gemau a gweithgareddau syml. Mae'r cyfan yn annog bod ynghlwm yn y dysgu a gwella cyflawniad academaidd.Bydd y cyfranwyr yn gwella eu sgiliau fel hwyluswyr a deall rol oedolion yn yr amgylchedd tu allan.Mae'r byd tu allan yn le i ni feithrin ein hunain ac eraill o'n cwmpas. Mae'n helpu i leihau pwysau gwaith a blinder sydd wedyn yn fodd i wella iechyd a lles.Bydd y sesiwn yn cale ei chynnal ym Mharc Bute, ac yn fodd i archwilio calon werdd y ddinas.Dewch â dillad ac esgidiau addas ar gyfer y tu allan.



Cyflwynir gan:

Cyngor Caerdydd Ceidwaidwyr Cymunedol a'r Tîm Addysg

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10:30 - 11:20

## Brick-by-Brick: meithrin lles cymdeithasol ac emosiynol trwy chwarae LEGO® cydweithredol

Mae 'Play Included'® yn bartneriaid gyda Sefydliad LEGO ac mae'n falch iawn o rannu arbenigedd ei dîm ar sut y gellir defnyddio chwarae cydweithredol LEGO® i gefnogi datblygiad cymdeithasol, cyfathrebu ac emosiynol plant. Defnyddir rhaglen Brick-by-Brick® Play Included yn aml i gefnogi plant niwroddargyfeiriol, ond sy'n berthnasol i bob plentyn sydd angen cymorth ychwanegol, ac mae'n ddull seiliedig ar dystiolaeth sy'n defnyddio chwarae LEGO mewn grŵp yn therapiwtig. Dysgwch am yr ymchwil ryngwladol i'r rhaglen, a sut y gellir ei defnyddio i gefnogi plant mewn ysgolion.



Cyflwynir gan:

Dr Gina Gómez de la Cuesta
**Cyfarwyddwr a Sylfaenydd**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

## Addysg wedi'i bersonoli ar gyfer pob disgybl

Agorwch botensial pob dysgwr drwy roi profiadau positif ac ysbrydoledig iddyn nhw. Bydd y sesiwn yn ffocysu ar bersonoli addysgu drwy adnoddau a dulliau sydd yn weithredol ar y dyfeisiadau sydd yn eich ysgol.P'run ai ydych yn defnyddio platfformau Apple,Google neu Microsoft, byddwn yn archwilio adnoddau am ddim, gan sicrhau nad ydy eich cyllideb yn cyfyngu ar eich addysgu arloesol. Manteisiwch ar 'Assistive and Inclusive Technology' i drawsnewid siwrnai addysgol pob plentyn, gan ddarparu ar gyfer pob math o anghenion amrywiol.



Cyflwynir gan:

Ryan Evans
**Uwch Dechnolegydd Aspire 2Be**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

Seminar ADY

## Cyfathrebu synhwyraidd ar gyfer sefyllfaoedd dwys

Pan yn cael eu sbarduno ar lefel synhwyraidd mae pobl yn mynd i'r modd 'fight o'r flight' [+freeze,flop or fawn'] Yn y modd hwn mae mynediad i brosesau pwysig i'r ymennydd sy'n hyrwyddo cyfathrebu yn cael eu colli, sy'n golygu fod y strategaethau yr ydym wedi bod yn eu defnyddio bellach ddim yn gweithio. Yn y seminar yma byddwch yn darganfod 'sensory flight paths' ac yn ystyried technegau cyfathrebu y gellid eu defnyddio i gefnogi unrhyw berson gofidus i deimlo'n saff a thawel. Bydd y seminar yn berthnasol iawn i'r rhai sy'n cefnogi myfyrwyr sydd hefo gwahaniaethau synhwyraidd, ac sy'n aml iawn yn teimlo'n ofidus ac felly'n amlygu hyn drwy eu hymddygiad.



Cyflwynir gan:

Joanne Grace
**Arbenigwr Ymgysylltiad Synhwyraidd a Chynhwysiant**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb + ADY**

10.30 - 11.20

## Y '3E' o fod yn gynhwysol: 'The 3E's of Inclusion: Darparu'r ystafell ddosbarth ar gyfer myfyrwyr y dosbarth gweithiol

Mae myfyrwyr y dosbarth gweithol yn dechrau bywyd dan anfantais ac mae'r sustem addysg yn methu cau'r agendor. Bydd myfyrwyr y dosbarth gweithiol yn cael y canlyniadau gwaethaf, yn llai tebygol o fynd i Brifysgol, yn llai tebygol o weithio mewn swyddi sy'n talu'n dda, ac yn dioddef o iechyd a lles gwael. Dydy hyn ddim oherwydd gallu nac ymdrech, ond hap a damwain. Nid yw meritocratiaeth yn bodoli. Yn y seminar ryngweithiol hon, bydd Matt Bromley awdur 'The Working Classroom' yn cyflwyno 3 problem sy'n ymwneud  â dysgu sy'n anfanteisiol i'r myfyrwyr sydd dan anfantais yn barod, ac yn cynnig 3 datrysiad -sef y 3'E.'



Cyflwynir gan:

Matt Bromley
**Awdur Addysg, Newyddiadurwr a Chynghorydd**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

## Empower Your Wellbeing: The 7 Pillars of Self-Care for Educators

Ydych chi'n addysgwr sy'n gweithio'n rhy galed, yn ymdrechu i roi o'ch gorau i'ch myfyrwyr tra'n amddifadu eich anghenion eich hunain? Mae'n amser i chi flaenoriaethu eich lles eich hun, ac ail ddarganfod eich awch am addysgu. Ymunwch â Kelly Hannaghan yn 'Mind Work Matters' ar gyfer y seminar arbennig yma,'Empower your Wellbeing: The 7 Pillars of Self-Care for Educators' ac ewch ar daith fydd yn eich tywys  a'ch trawsnewid at wella eich hunan-les.



Cyflwynir gan:

Kelly Hannaghan
**Cyfarwyddwr Mind Work Matters Ltd**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Pob seminar wedi'i achredu gan Agored Cymru

# Seminarau a Siaradwyr

10.30 - 11.20

## Llwyddiant i adalw ffeithiau Rhif!!

Mae'r seminar ar gyfer athrawon ac ysgolion sydd yn teimlo nad ydynt eto wedi 'cracio'r system' i wneud yn siwr y bydd eu plant yn adalw ffeithiau rhif yn sydyn. Bydd y seminar yn edrych ar adalw a diogelu ffeithiau rhif. Dyma'r sylfaen ar gyfer darpariaeth fathemategol unrhyw ysgol Gynradd ,ond sydd yn faes lle mae ysgolion yn profi llai o lwyddiant. Byddwn yn archwilio ffyrdd sy'n wedi'u profi i weithredu adalw ffeithiau lluosi. Nodwedd allweddol o'r seminar fydd edrych ar sut ydym ni'n dysgu adalw ffeithiau rhif, yn hytrach na rhoi cyfleoedd i blant ymarfer.



Cyflwynir gan:

Ben Harding
**Ymgynghorydd Addysg a Chyfarwyddwr 'Winning With Numbers'**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12.00 - 12.50

## Cau'r bwlch anfantais: Rydym angen siarad am Jason

Bydd y sesiwn yn ffocysu ar blant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny mewn tlodi. Bydd Jean yn edrych ar fythau a'r pethau anghywir yr ydym yn eu gwneud yn ein hymdrechion i gau'r bwlch mewn cyflawniad rhwng y plant dan anfantais a'u cyfoedion. Bydd yn cyflwyno dulliau effeithiol, o ffocws ar lafaredd i roi sylw i'r effaith ar blant. Byddwch yn dysgu am y pŵer o ennill hyder, perthyn a chysylltu, cymryd eich prawf hunan-effeithlonrwydd a darganfod llu o dechnegau effeithiol ar gyfer y dosbarth i gau'r bwlch.



Cyflwynir gan:

Jean Gross *CBE*
**Ymgynghorydd Annibynnol ac Awdur sy'n Gwerthu Orau**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

## Ydych chi'n delio gyda sgyrsiau a phobl anodd?

Mae'r seminar wedi'i chynllunio ar gyfer y rhai sydd eisiau datblygu hyder a sgiliau ar sut i ddelio â phobl anodd yn y gweithle. Mae cael sgyrsiau anodd neu ddelio â phobl anodd yn gallu creu pwysau gwaith a gorbryder i staff mewn ysgolion a cholegau. Mae'r seminar wedi'i chynllunio i'ch paratoi waeth beth fo'r amgylchiadau ar gyfer eich arfogi i ddelio hefo sefyllfaoedd anodd.



Cyflwynir gan:

Nicola S. Morgan
**Ymgynghorydd Addysg, Awdur a Siaradwr TEDx**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

## Defnyddio Drama ar gyfer Dysgu Gwych

Yn y sesiwn ddechreuol gyfeillgar hon bydd Hywel yn edrych ar

- Sut y gall drama helpu hefo ymddygiad
- Defnyddio Drama i gyfoethogi dysgu a deall
- Sut mae Drama yn bedagogiaeth allweddol i gynnal y Pedwar Pwrpas [ 'Four Purposes']
- Sut y gellir defnyddio Drama i gysylltu hefo'r gymuned a'r byd
- Pam NAD ydy drama bob amser am actio

Bydd y sesiwn yn cynnig syniadau allweddol i'w defnyddio'n syth yn eich dosbarthiadau.



Cyflwynir gan:

Hywel Roberts
**Ymgynghorydd Addysg ac Awdur**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

## 'Compass for life'- dod â'r theorïau gorau ynghyd â'u gweithredu

Yn edrych ar bedair prif agwedd o'r 'CFL' o berspectif personol a phroffesiynol. 'Super North Star '(SNS) - eich gweledigaeth, a ble rydych chi'n mynd ar eich siwrnai. Ethos- eich gwerthoedd a sut mae'r rheini'n effeithio ar eich penderfyniadau. 'Strategist'/Strategydd-eich cynllun ar sut i ymgyrraedd at eich 'SNS' a'r cerrig milltir ar y ffordd. 'Warrior'/Brwydrwr-y strategaethau meddyliol a ffisegol fydd eu hangen ar gyfer eich taith a'r hyder i wireddu eich cynllun. Bydd 'CFL' yn helpu i ddod â holl agweddau theoretig ac ymarferol yr ydych eisioes wedi eu profi, a rhoi pecyn cymorth i chi symud ymlaen ar eich taith.



Cyflwynir gan:

Floyd Woodrow *MBE DCM LL.B*
**Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol, Siiaradwr Ysbrydoledig**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

Seminar ADY

## Gweithio'n effeithiol hefo'ch cymhorthydd

Yn y sesiwn bydd Sara Alston yn edrych ar:

- Rhai sialensau o weithio'n effeithiol hefo'ch cymorthyddion a sut i'w goresgyn.
- Creu tîm o gwmpas y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Pwysigrwydd cyfathrebu, yn enwedig ffyrdd o rannu cynlluniau, adborth a gwybodaeth am y plant.
- Rôl y cymhorthydd o weithio o fewn y dosbarth drwy gydol y wers.
- Gweithio tuag at fod yn annibynnol ac osgoi gwneud y plant yn ddibynnol ar brocio.



Cyflwynir gan:

Sara Alston
**Ymgynghorydd a Hyfforddwr ADY a Diogelu**

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi'i achredu gan Agored Cymru

10:30 - 11:20

## Symud drwy Stori a Ioga

Sesiwn symud hwyliog yng nghwmni Leisa Mererid wrth iddi eich tywys drwy ei llyfr diweddaraf 'Y Seren Ioga'. Dewch i ddilyn taith seren fach sydd ar goll. Daw wyneb yn wyneb a sawl rhwystr a sawl creadur 'anghyfarwydd' wrth iddi drio dod o hyd i'w ffordd adre.



Cyflwynir gan:

Leisa Mererid
**Awdures ac Actores**

Iaith: **Cymraeg |** Cynulleidfa: **Pawb**

12.00 - 12.50

## 'Tuff Tray' Tu Allan

Byddai'r sesiwn hon yn ymwneud â gosod 'Tuff Tray' y tu allan i ymestyn a chyfoethogi'r cwricwlwm a datblygu dysgu'r plant.



Cyflwynir gan:

Shonette Bason
**Siaradwr Cymhellol Rhyngwladol**

Iaith: **Saesneg |** Cynulleidfa :**BC, ADY, SLT**

12.00 - 12.50

## Beth mae'r ysgolion gorau'n wneud yn wahanol, a beth sydd yr un fath?

